
O Fur Hadrian i hip hop: sut mae Archives Revealed



Mae dogfennau, ffotograffau, nodiadau ac ymchwil yr archaeolegwyr a ailddarganfu hanes Mur Hadrian yn cael eu catalogio fel rhan o brosiect Archives Revealed Ymddiriedolaeth Vindolanda. Credyd: Ymddiriedolaeth Vindolanda. Credit: The Vindolanda Trust.

Mae ein buddsoddiad o £5 miliwn yn cynyddu graddfa uchelgais rhaglen grantiau sy'n helpu archifau ac amgueddfeydd i fynd i'r afael â'u llwyth o ddeunyddiau heb eu catalogio, ac ailddarganfod storïau cyfareddol yn y broses.

Mae Archives Revealed yn bartneriaeth rhyngom ni a'r Archifau Cenedlaethol, Sefydliad Wolfson ac Ymddiriedolaeth Pilgrim sy'n cynnig sawl math o grantiau i archifau.

Mae grantiau cwmpasu'n asesu casgliadau heb eu harchwilio ond sydd o bwys cyhoeddus yn annibynnol, ac mae grantiau catalogio a chonsortiwm yn ariannu archifwyr ac allgymorth cyhoeddus sy'n gwneud casgliadau'n hygyrch i bawb.

> Mae gan yr archifau hyn botensial eithriadol ar gyfer ymchwil, creadigrwydd ac ennyn diddordeb y cyhoedd, ond bydd llawer o'r potensial hwnnw'n parhau wedi'i gloi i ffwrdd heb gatalogio manwl."
> *Bethany Goodman, Archifydd a Rheolwr Prosiect, Ymddiriedolaeth Vindolanda*

Dewch i gwrdd â phum prosiect sy'n agor casgliadau i fyny i ennyn diddordeb y cyhoedd ac annog dysgu.

Archwilio Mur Hadrian drwy'r archif archeolegol

Mae Ymddiriedolaeth Vindolanda yn arwain partneriaeth ag Amgueddfa Archaeoleg Prifysgol Durham a North East Museums i gatalogio pum archif sy'n ymwneud â hanes ymchwil fodern i Mur Hadrian.

Bydd y iaeth o'r ade i gynulle



Mae cofnodion cloddio o waith yng Nghaer Rufeinig Arbeia, South Shields, gan gynnwys ffotograffau fel yr un hon, yn cael eu catalogio fel rhan o brosiect Archives Revealed Ymddiriedolaeth Vindolanda. Credyd: North East Museums.

Meddai Bethany Goodman, Archifydd a Rheolwr Prosiect: “Mae gan yr archifau hyn botensial eithriadol ar gyfer ymchwil, creadigrwydd ac ennyn diddordeb y cyhoedd, ond bydd llawer o’r potensial hwnnw’n parhau wedi’i gloi i ffwrdd heb gatalogio manwl.

“Mae’r prosiect hwn yn caniatáu i ni ddod â chasgliadau sydd fel arfer yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain ynghyd a datgelu’r rhwydweithiau o bobl, syniadau a diwylliant materol a luniodd ein dealltwriaeth o Fur Hadrian.”

O'r bwrdd lluniadu i'r llithrfa: archif cynlluniau llongau Harland a Wolff

Mae National Museums and Galleries of Northern Ireland yn geidwad casgliad helaeth o bwys rhyngwladol sy'n cynnwys archif Harland & Wolff, sy'n cwmpasu dros ganrif o ddyluniadau a chynlluniau ar gyfer mwy na 1,200 o longau – gan gynnwys y Titanic.

Gyda c
hygyrc



Tynnu lluniau o RMS Titanic yn ystod treialon môr.

Cloddio yn y cewyll: gwrth-naratifau drwy hip hop y DU

Wrth i SIN Cru, sefydliad celf hip hop, gyrraedd ei ben-blwydd yn 30 oed, gwnaeth grant cwmpasu gan Archives Revealed alluogi cam cyntaf hanfodol wrth asesu ei archif fyw helaeth. Mae'r sefydliad eisiau catalogio a darparu eu casgliad o allbynnau creadigol a diwylliant materol sy'n rhychwantu tair degawd o hip hop y DU fel adnodd i artistiaid ac addysgwyr.



Perfformwyr 1DaWoman a TrubLroC. Credyd: SIN Cru.

Diogelu hanesion pobl anabl a gwneud archifau’n hygyrch

Mae Cynghrair Pobl Anabl Manceinion Fwyaf yn sefydliad i bobl anabl â phob math o namau, a redir ac a reolir gan bobl anabl i hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiad.

Bydd ei brosiect Archives Revealed yn catalogio casgliadau a roddwyd sy'n darparu hanes manwl brwydr pobl anabl dros fyw'n annibynnol. Bydd pob eitem ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys testun yn unig, print bras, fideo wedi'i isdeitlo, trawsgrifiad ac Iaith Arwyddion Prydain. Bydd y prosiect yn sicrhau bod storïau pobl anabl – cymuned, diwylliant a hanes a rennir – yn cael eu gwarchod.




Placardiau o Fudiad Pobl Anabl y DU. Credyd: Greater Manchester Coalition of Disabled People.

Diogelu treftadaeth gwaith saer melin i achub sgil grefft sydd mewn perygl

Mae pedwar casgliad sy'n cofnodi crefft hanesyddol gwaith saer melin – adeiladu ac atgyweirio melinau gwynt a melinau d?r – yn cael eu catalogio gan Mills Archive Trust.

Daw'r cofnodion, gan gynnwys lluniadau technegol a ffotograffau o felinau hanesyddol yn y DU a thramor, gan seiri melinau cyfoes ac o'r 20fed ganrif a chan arbenigwyr treftadaeth.

Mae'r ymddiriedolaeth yn gobeithio y gall y cofnodion hyn fod yn adnoddau addysgu defnyddiol wrth ofalu am felinau a helpu trosglwyddo gwaith saer melin, sgil treftadaeth ddiwydiannol a ddosberthir fel un sydd mewn perygl difrifol gan Heritage Crafts Association.



Mae tua 1,000 o luniadau technegol sy'n dangos sut y cafodd melinau hanesyddol eu hadeiladu a sut y maent yn gweithredu, yn cael eu catalogio gyda grant gan Archives Revealed. Credyd: The Mills Archive Trust.

Mwy o wybodaeth am Archives Revealed

Dysgwch fwy am y rhaglen ariannu, gan gynnwys sut i wneud cais am grant, drwy fynd i wefan yr Archifau Cenedlaethol.



efyd mewn ...

The project uncovered Keith Armstrong's photographic archive, who photographed events from within. Credit: Shape Arts.



outside the archive’s walls

2026 joint winner: Hannah, Project Officer at Gloucestershire Archives, with vegetables harvested from the community garden. Credit: Gloucestershire Archives.



winning environmentally friendly project

The new Kresen Kernow archive centre has been made possible thanks to a £11.7million National Lottery grant and nearly a decade of work.

Creating a home for Cornwall’s archives